# Ffordd Ddosbarthu'r Morfa – Cam 2, Adroddiad Cynnydd

**Priffyrdd a Thrafnidiaeth**

Mae gwaith yn mynd rhagddo ar adeiladu cam diweddaraf cynllun Ffordd Ddosbarthu'r Morfa. Ar ôl cwblhau gwaith gwella'r gyffordd ym mhen deheuol Heol y Morfa, mae gwaith yn datblygu i adeiladu rhan newydd o'r briffordd o lwybr bysus cyflym Glandŵr, i helpu gyda mynediad i ddechrau i ddatblygiad preswyl newydd arfaethedig ar hen safle Hastie.

Mae'r lluniau isod yn dangos llwybr y ffordd newydd, sy'n dilyn llinell hen Gamlas Tawe'n bennaf. Mae gwaith cychwynnol wedi cynnwys trwsio strwythurau rhestredig, gan gynnwys wal ffin y gamlas ac odyn galch.
Oherwydd hanes arwyddocaol y safle, gwneir yr holl waith dan oruchwyliaeth archaeolegydd a benodwyd ac mae gwaith ymchwiliol yn cynnwys treial cloddio. Mae wal gynnal newydd hefyd yn cael ei hadeiladu i gynnal yr arglawdd islaw llwybr y briffordd arfaethedig.



Golwg i'r gogledd, gydag aliniad y briffordd arfaethedig yn dilyn llinell hen gamlas Tawe ar y chwith. Mae wal gynnal newydd yn cael ei hadeiladu i gefnogi sylfaen yr arglawdd.



Cynnal gwaith ymchwilio archaeolegol parhaus fel rhan o'r prosiect.



Gwaith maen yn cael ei wneud ar yr adeilad odyn galch rhestredig.



Mae gwaith i drwsio wal ffin y gamlas wedi'i gwblhau. Bydd llwybr y briffordd newydd yn dilyn llinell hen gamlas Tawe



Golwg i'r de, gyda depo rheilffordd Maliphant sydd bron wedi'i gwblhau ar y dde i'r briffordd arfaethedig newydd

I gael mwy o wybodaeth am gynllun Ffordd Ddosbarthu'r Morfa, ewch i wefan prosiect y cyngor:
www.abertawe.gov.uk/ffordddosbarthurmorfa

Ffordd Ddosbarthu'r Morfa Cam 2

20.3.15

CITY AND COUNTY OF SWANSEA
DINAS A SIR ABERTAWE
**Adran yr Amgylchedd – Cludiant a Pheirianneg**
**www.swansea.gov.uk**